Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.llyw.cymru

Cyfnodau Allweddol 2–4

# Cymraeg ail iaith

yng Nghwricwlwm Cenedlaethol Cymru

# Cymraeg ail iaith yng Nghwricwlwm Cenedlaethol Cymru

**Cynulleidfa** Athrawon, penaethiaid a chyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir yng Nghymru; awdurdodau lleol; consortia rhanbarthol; darparwyr hyfforddiant cychwynnol athrawon; undebau athrawon a chyrff cynrychioli ysgolion; awdurdodau esgobaethol eglwysi; cyrff cenedlaethol yng Nghymru sydd â diddordeb mewn addysg.

**Trosolwg** Mae’r ddogfen hon yn egluro gofynion Llywodraeth Cymru ar gyfer Cymraeg ail iaith yng nghwricwlwm cenedlaethol Cymru. Fe’i cyhoeddir yn unol â’r pwerau yn Adran 108 o Ddeddf Addysg 2002 ac a freiniwyd yng Ngweinidogion Cymru. Mae Gweinidogion Cymru yn rhan o Lywodraeth Cymru.

**Camau i’w cymryd** Rhaid i athrawon, penaethiaid a chyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir sicrhau bod y gofynion cyfreithiol yn y ddogfen hon yn cael eu gweithredu.

**Gwybodaeth bellach** Dylid cyfeirio ymholiadau am y ddogfen hon at:

Yr Is-adran Cwricwlwm
Y Gyfarwyddiaeth Addysg
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
e-bost: is-adrancwricwlwm@cymru.gsi.gov.uk

**Copïau ychwanegol** Mae'r ddogfen hon ar gael o wefan Dysgu Cymru yn llyw.cymru/dysgu

**Dogfennau cysylltiedig** *Ieithoedd tramor modern yng Nghwricwlwm Cenedlaethol Cymru* (2008); *Addysg gorfforol yng Nghwricwlwm Cenedlaethol Cymru* (2008); *Cerddoriaeth yng Nghwricwlwm Cenedlaethol Cymru* (2008); *Celf a dylunio yng Nghwricwlwm Cenedlaethol Cymru* (2008); *Daearyddiaeth yng Nghwricwlwm Cenedlaethol Cymru* (2008); *Hanes yng Nghwricwlwm Cenedlaethol Cymru* (2008); *Technoleg gwybodaeth a chyfathrebu yng Nghwricwlwm Cenedlaethol Cymru* (2008); *Dylunio a thechnoleg yng Nghwricwlwm Cenedlaethol Cymru* (2008); *Gwyddoniaeth yng Nghwricwlwm Cenedlaethol Cymru* (2008); *Cwricwlwm Cymru: Rhaglen Astudio ar gyfer Cymraeg – Cyfnodau Allweddol 2–4* (2015); *Cwricwlwm Cymru: Rhaglen Astudio ar gyfer Saesneg – Cyfnodau Allweddol 2–4* (2015); *Cwricwlwm Cymru: Rhaglen Astudio ar gyfer Mathemateg – Cyfnodau Allweddol 2–4* (2015).

OGL © Hawlfraint y Goron 2015 WG25220 ISBN digidol 978 1 4734 3636 7

WG30202

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| **Rhagair** | **2** |
| **Cynnwys pob dysgwr** | **3** |
| **Sgiliau ar draws y cwricwlwm** | **5** |
| **Dysgu ar draws y cwricwlwm** | **7** |
| **Dilyniant mewn Cymraeg ail iaith** | **9** |
| **Cyfnod Allweddol 2: Rhaglen Astudio** | **11** |
| **Cyfnod Allweddol 3: Rhaglen Astudio** | **14** |
| **Targedau cyrhaeddiad** | **17** |
| **Deilliannau'r cwricwlwm cenedlaethol** | **23** |
| **Cyfnod Allweddol 4** | **27** |
| **Cyfnod Allweddol 4: Rhaglen Astudio** | **28** |

# Rhagair

Mae'r ddogfen hon yn cyflwyno'r cwricwlwm cenedlaethol ar gyfer **Cymraeg ail iaith** yng Nghymru.

## Strwythur y cwricwlwm cenedlaethol

Mae'r cwricwlwm cenedlaethol yn berthnasol i ddysgwyr o oedran ysgol gorfodol mewn ysgolion a gynhelir. Fe'i trefnir ar sail tri chyfnod allweddol, a dyma nhw yn fras*:

| | Oedran y dysgwyr | Grwpiau blwyddyn |
|---|---|---|
| Cyfnod Allweddol 2 | 7–11 | 3–6 |
| Cyfnod Allweddol 3 | 11–14 | 7–9 |
| Cyfnod Allweddol 4 | 14–16 | 10–11 |

Yng Nghymru, mae'r pynciau canlynol yn cael eu cynnwys yn y cwricwlwm cenedlaethol yn y cyfnodau allweddol a ddangosir:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Allweddol 2 | Cymraeg, Cymraeg ail iaith, Saesneg, mathemateg, gwyddoniaeth, dylunio a thechnoleg, technoleg gwybodaeth a chyfathrebu, hanes, daearyddiaeth, celf a dylunio, cerddoriaeth ac addysg gorfforol. |
| Cyfnod Allweddol 3 | Fel yng Nghyfnod Allweddol 2, ynghyd ag iaith dramor fodern. |
| Cyfnod Allweddol 4 | Cymraeg, Cymraeg ail iaith, Saesneg, mathemateg, gwyddoniaeth ac addysg gorfforol. |

Ar gyfer pob pwnc, ym mhob un o'r cyfnodau allweddol a restrir uchod, mae rhaglenni astudio yn pennu'r hyn y dylid ei addysgu i'r dysgwyr.

Ar ddiwedd Cyfnodau Allweddol 2 a 3, mae safonau perfformiad y dysgwyr yn cael eu disgrifio mewn wyth disgrifiad lefel sy'n mynd yn fwyfwy anodd. Mae disgrifiad ychwanegol y tu hwnt i Lefel 8 er mwyn helpu athrawon i wahaniaethu Perfformiad Eithriadol.

Yng Nghyfnod Allweddol 4, defnyddir cymwysterau allanol fel y prif ddull o asesu cyrhaeddiad yn y cwricwlwm cenedlaethol. Mae Cronfa Ddata Cymwysterau Cymeradwy Cymru (DAQW) yn cynnwys yr holl gymwysterau y mae Llywodraeth Cymru wedi'u cymeradwyo, o dan Adran 96 o Ddeddf Dysgu a Sgiliau 2000, fel cymwysterau i'w defnyddio gyda dysgwyr o oedran ysgol gorfodol.

* Mae'r cyfnodau allweddol yn cael eu diffinio'n fanwl gywir yn Adran 103 Deddf Addysg 2002.

# Cynnwys pob dysgwr

## Cyfrifoldebau ysgolion

Yn ôl Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) a Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011, rhaid sicrhau bod pob plentyn a pherson ifanc yn derbyn addysg sy'n datblygu eu personoliaeth a'u talentau yn llawn. Mae Deddf Addysg 2002 yn cryfhau ymhellach ddyletswydd ysgolion i ddiogelu a hyrwyddo lles pob plentyn a pherson ifanc.

Mae'r ddeddfwriaeth cyfle cyfartal sy'n cwmpasu oedran, anabledd, rhyw, hil, crefydd a chred, a chyfeiriadedd rhywiol yn gosod dyletswydd bellach ar ysgolion yng Nghymru tuag at y dysgwyr presennol a darpar ddysgwyr, sef cael gwared ar wahaniaethu ac aflonyddwch, hyrwyddo agweddau cadarnhaol a chyfle cyfartal, ac annog cyfranogiad ym mhob agwedd ar fywyd yr ysgol.

Dylai ysgolion feithrin ym mhob dysgwr ymdeimlad o hunaniaeth bersonol a diwylliannol sy'n dderbyngar ac yn parchu eraill. Dylai ysgolion gynllunio ar draws y cwricwlwm i ddatblygu gwybodaeth a dealltwriaeth, sgiliau, gwerthoedd ac agweddau a fydd yn galluogi dysgwyr i gymryd rhan yn ein cymdeithas amlethnig yng Nghymru. Dylai ysgolion ddatblygu ymagweddau sy'n cefnogi hunaniaeth ethnig a diwylliannol pob dysgwr ac sy'n adlewyrchu ystod o safbwyntiau, er mwyn cael ymrwymiad dysgwyr a'u paratoi am fywyd fel dinasyddion byd-eang.

Rhaid i ysgolion weithio i leihau rhwystrau amgylcheddol a chymdeithasol i gynhwysiant a darparu cyfleoedd i'r holl ddysgwyr fel eu bod yn cyflawni eu potensial yn llawn wrth baratoi ar gyfer addysg bellach a bywyd. Lle bo'n briodol, bydd angen i ysgolion gynllunio a gweithio gyda gwasanaethau arbenigol i sicrhau y caiff dysgwyr brofiadau perthnasol a hygyrch.

Ar gyfer dysgwyr ag anableddau yn enwedig, dylent:

- wella mynediad i'r cwricwlwm
- gwneud gwelliannau ffisegol i gynyddu cyfranogiad mewn addysg
- darparu gwybodaeth mewn fformatau priodol.

Dylai ysgolion geisio cyngor ynglŷn ag addasiadau rhesymol, gweithgareddau amgen/addasedig ac offer ac adnoddau priodol y gellir eu defnyddio i gefnogi cyfranogiad llawn gan yr holl ddysgwyr, gan gynnwys rhai sy'n defnyddio dull arall o gyfathrebu heblaw am iaith lafar.

Ar gyfer dysgwyr nad ydynt yn siarad Cymraeg na Saesneg fel iaith gyntaf, dylai ysgolion gymryd camau penodol i'w helpu i ddysgu Cymraeg a Saesneg drwy'r cwricwlwm. Dylai ysgolion ddarparu deunydd i ddysgwyr sy'n cyfateb â'u gallu, eu haddysg a'u profiad blaenorol, ac sy'n ymestyn eu datblygiad ieithyddol. Dylai ysgolion hefyd annog y defnydd o ieithoedd cartref y dysgwyr wrth ddysgu.

## Hawliau dysgwyr

Dylai ysgolion yng Nghymru sicrhau bod pob dysgwr yn ymrwymo'n aelodau llawn o gymuned eu hysgol, ac yn cael mynediad i'r cwricwlwm ehangach a holl weithgareddau'r ysgol gan weithio ochr yn ochr â'u cyfoedion lle bo hynny'n bosibl. Dylai'r ysgol addysgu'r holl raglenni astudio a fframweithiau mewn modd sy'n cyfateb i aeddfedrwydd a gallu dysgwyr sy'n dal i ddatblygu. Dylai hefyd sicrhau bod dysgwyr yn gallu gwneud defnydd llawn o'u dull dewisedig o gyfathrebu er mwyn cael mynediad i'r cwricwlwm. I ehangu eu dysgu, dylai dysgwyr brofi amrywiaeth o arddulliau dysgu ac addysgu.

Er mwyn galluogi pob dysgwr i fanteisio ar sgiliau, gwybodaeth a dealltwriaeth berthnasol ar bob lefel, gall ysgolion ddefnyddio cynnwys o gyfnodau neu gyfnodau allweddol blaenorol o fewn y cwricwlwm. Dylai ysgolion ddefnyddio deunyddiau mewn modd sy'n addas i oedran, profiad, dealltwriaeth a chyrhaeddiad blaenorol y dysgwyr, er mwyn ennyn eu diddordeb yn y broses ddysgu.

Ar gyfer dysgwyr sy'n gweithio ar lefel sy'n llawer is na'r hyn a ddisgwylir mewn unrhyw gyfnod allweddol, dylai ysgolion ddefnyddio anghenion y dysgwr fel man cychwyn ac addasu rhaglenni astudio i gyfateb â'r anghenion hynny. Mae'r cwricwlwm yn ddigon hyblyg i ddiwallu anghenion dysgwyr heb orfod datgymhwyso. Mewn achosion eithriadol, gellir datgymhwyso dysgwyr unigol, am gyfnod dros dro fel arfer. Serch hynny, ni ddylid datgymhwyso grwpiau na datgymhwyso ar raddfa fawr.

Os nad oes modd ymdrin â chynnwys yr holl raglenni astudio ar gyfer pob cyfnod allweddol, gellir bodloni'r gofyniad statudol i ddarparu cwricwlwm eang a chytbwys drwy ddewis pynciau/themâu priodol o'r cwricwlwm yn gyd-destunau ar gyfer dysgu.

Ar gyfer dysgwyr mwy galluog a thalentog sy'n gweithio ar lefelau uwch, dylai ysgolion gynnig mwy o her iddynt drwy ddefnyddio deunyddiau mewn modd sy'n ymestyn ehangder a dyfnder yr astudio a chyfleoedd i ddysgu'n annibynnol. Gellir cynyddu'r her hefyd drwy ddatblygu a chymhwyso meddwl, a sgiliau cyfathrebu, TGCh a rhif ar draws y cwricwlwm.

Dylai ysgolion ddewis deunydd a fydd yn:

- darparu cwricwlwm ystyrlon a pherthnasol sy'n cymell eu dysgwyr
- diwallu anghenion penodol eu dysgwyr a hyrwyddo'u datblygiad yn gyffredinol.

Dylai dysgwyr o bob gallu gael mynediad i asesu ac achredu priodol.

## Sgiliau ar draws y cwricwlwm

Mae *Fframwaith sgiliau ar gyfer dysgwyr 3 i 19 oed yng Nghymru* anstatudol wedi cael ei ddatblygu er mwyn cynnig arweiniad ynghylch parhad a dilyniant mewn datblygu meddwl, cyfathrebu, TGCh a rhif i ddysgwyr 3–19 oed.

Yng Nghyfnodau Allweddol 2 a 3, dylid rhoi cyfleoedd i'r dysgwyr adeiladu ar y sgiliau y maent wedi dechrau eu caffael a'u datblygu yn ystod y Cyfnod Sylfaen. Dylai'r dysgwyr barhau i gaffael, datblygu, ymarfer, cymhwyso a mireinio'r sgiliau hyn trwy dasgau grŵp a thasgau unigol mewn amrywiaeth o gyd-destunau ar draws y cwricwlwm. Gellir gweld cynnydd yn nhermau mireinio'r sgiliau hyn a thrwy eu cymhwyso i dasgau sy'n symud o'r diriaethol i'r haniaethol; syml i'r cymhleth; personol i'r 'darlun mawr'; cyfarwydd i'r anghyfarwydd; a dibynnol i'r annibynnol a'r cyd-ddibynnol.

Ar gyfer dysgwyr 14–19 oed, dylai'r fframwaith ddarparu'r sail ar gyfer gwneud cynnydd effeithiol yn y sgiliau hyn, y gellir eu hasesu drwy ystod o gymwysterau, gan gynnwys Sgiliau Allweddol.


### Datblygu meddwl



Bydd y dysgwyr yn datblygu eu meddwl ar draws y cwricwlwm trwy'r prosesau **cynllunio**, **datblygu** a **myfyrio**.

Mewn **Cymraeg ail iaith**, bydd y dysgwyr yn archwilio, cynllunio, datblygu ac ystyried syniadau drwy siarad, darllen ac ysgrifennu ac yn ymateb i'w gwaith eu hunain ac i waith eraill. Byddant yn dadansoddi, yn strwythuro ac yn trefnu eu gwaith; yn defnyddio iaith yn greadigol; yn defnyddio gwallau a chanlyniadau annisgwyl i ddatblygu eu dysgu; yn defnyddio eu gwybodaeth o iaith i egluro a rhagfynegi; yn disgrifio cysylltiadau a'r hyn sy'n debyg mewn ieithoedd; yn adnabod patrymau ac yn ffurfio rheolau; yn trafod sut byddant yn dysgu iaith ac yn gwerthuso eu llwyddiant.

### Datblygu cyfathrebu




Bydd y dysgwyr yn datblygu eu sgiliau cyfathrebu ar draws y cwricwlwm trwy'r sgiliau **llafaredd**, **darllen**, **ysgrifennu** a **chyfathrebu ehangach**.

Mewn **Cymraeg ail iaith**, bydd y dysgwyr yn cyfathrebu trwy llafaredd, darllen ac ysgrifennu, gan ddatblygu'r sgiliau hyn trwy werthuso'u gwaith eu hunain a gwaith eraill. Wrth wneud hyn, byddant yn dysgu sut i gyfathrebu yn effeithiol ar gyfer ystod o ddibenion a chydag ystod o gynulleidfaoedd. Byddant yn ymdrin ag iaith estynedig a mwyfwy

cymhleth er mwyn datblygu i ddefnyddio iaith yn annibynnol ac yn hyderus. Bydd eu sgiliau cyfathrebu yn y Gymraeg yn cefnogi ac yn hybu datblygiad sgiliau mewn ieithoedd eraill.

## Datblygu TGCh



Bydd y dysgwyr yn datblygu eu sgiliau TGCh ar draws y cwricwlwm trwy **ddarganfod**, **datblygu**, **creu a chyflwyno gwybodaeth a syniadau** a thrwy ddefnyddio ystod eang o offer a meddalwedd.

Mewn **Cymraeg ail iaith**, bydd y dysgwyr yn datblygu eu sgiliau TGCh trwy gyfathrebu a rhannu gwybodaeth, a thrwy ddefnyddio technoleg ar gyfer ymchwil, datblygu a chyflwyno'u gwaith.

## Datblygu rhif



Bydd y dysgwyr yn datblygu eu sgiliau rhif ar draws y cwricwlwm trwy **ddefnyddio gwybodaeth fathemategol**, **cyfrifo**, **a dehongli a chyflwyno casgliadau**.

Mewn **Cymraeg ail iaith**, bydd y dysgwyr yn datblygu eu sgiliau rhif trwy weithgareddau sy'n cynnwys rhigymau rhif, defnyddio trefnolion a rhifolion, gosod digwyddiadau mewn trefn amser, defnyddio mesur, cywain gwybodaeth mewn gwahanol ffyrdd, gan gynnwys holiaduron; cyrchu, dethol, cofnodi a chyflwyno data mewn gwahanol fformatau.

# Dysgu ar draws y cwricwlwm

Yng Nghyfnodau Allweddol 2 a 3, dylid rhoi cyfleoedd i'r dysgwyr adeiladu ar y profiadau a gaffaelwyd yn ystod y Cyfnod Sylfaen, a hybu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o Gymru, eu datblygiad personol a chymdeithasol a'u lles, a'u hymwybyddiaeth o'r byd gwaith.

Yng Nghyfnod Allweddol 4, dylai gwybodaeth a dealltwriaeth y dysgwyr gael eu datblygu a'u cymhwyso o fewn cyd-destunau eu llwybrau 14–19 unigol gan gynnwys y Craidd Dysgu.

## Y Cwricwlwm Cymreig (7–14) a Chymru, Ewrop a'r Byd (14–19)

Dylai dysgwyr 7–14 oed gael cyfleoedd i ddatblygu a chymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth o nodweddion diwylliannol, economaidd, amgylcheddol, hanesyddol ac ieithyddol Cymru. Dylai dysgwyr 14–19 oed gael cyfleoedd i fod yn weithredol wrth ddeall agweddau gwleidyddol, cymdeithasol, economaidd a diwylliannol ar Gymru fel rhan o'r byd cyfan. Ar gyfer dysgwyr 14–19 oed, mae'n rhan o hawl y Craidd Dysgu ac yn ofyniad yng Nghyfnod Allweddol 4.

Bydd **Cymraeg ail iaith** yn cyfrannu at y Cwricwlwm Cymreig trwy roi ymwybyddiaeth i'r dysgwyr o'r dreftadaeth lenyddol a diwylliannol wrth iddynt astudio pob math o destunau, a bydd yn rhoi cyfle iddynt ddefnyddio'r Gymraeg fel ffordd naturiol o gyfathrebu. Bydd yn rhoi cyfle unigryw i'r rhai sy'n dysgu Cymraeg fel ail iaith i ddysgu iaith Cymru a bod yn ddwyieithog.

## Addysg bersonol a chymdeithasol

Dylai dysgwyr gael cyfleoedd i hyrwyddo eu hiechyd a'u lles emosiynol a'u datblygiad moesol ac ysbrydol; bod yn ddinasyddion gweithgar a hybu datblygiad cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang; a pharatoi ar gyfer dysgu gydol oes. Ar gyfer dysgwyr 14–19 oed, mae'n rhan o hawl y Craidd Dysgu ac yn ofyniad yng Nghyfnod Allweddol 4.

Bydd **Cymraeg ail iaith** yn cyfrannu at addysg bersonol a chymdeithasol y dysgwyr trwy ddatblygu eu hymwybyddiaeth o rôl a gwahanol gyfraniadau ieithoedd lleiafrifol a ieithoedd byd-eang mewn cymdeithas. Drwy ddatblygu eu gwerthfawrogiad o ddau ddiwylliant byddant yn dod i ddeall diwylliannau eraill yn well a thyfu'n oddefol ohonynt. Byddant yn cydweithio ac yn parchu rôl pobl eraill. Drwy ymchwilio a gwerthuso testunau yn ymwneud ag ystod o themâu gellid annog datblygiad hunan-wybodaeth, aeddfedrwydd emosiynol ac empathi â'r cyflwr dynol.

## Gyrfaoedd a’r byd gwaith

Dylai dysgwyr 11–19 oed gael cyfleoedd i ddatblygu eu hymwybyddiaeth o’r maes gyrfaoedd a’r byd gwaith a sut mae eu hastudiaethau’n cyfrannu at baratoi ar gyfer bywyd gwaith. Ar gyfer dysgwyr 14–19 oed, mae’n rhan o hawl y Craidd Dysgu ac yn ofyniad yng Nghyfnod Allweddol 4.

Bydd **Cymraeg ail iaith** yn cyfrannu at yrfaoedd a’r byd gwaith trwy alluogi dysgwyr i fanteisio ar y cyfleoedd cynyddol i weithio mewn meysydd lle mae angen sgiliau dwyieithog, a gwneud y mwyaf o’r twf yn y defnydd o’r Gymraeg yn y gweithle. Hefyd, bydd yn galluogi dysgwyr i ryngweithio â’r rhai sy’n ddwyieithog mewn lleoliadau gwaith.

# Dilyniant mewn Cymraeg ail iaith

## Datblygu'r Gymraeg yn y Cyfnod Sylfaen

Yn ystod y Cyfnod Sylfaen, dylai plant ddysgu defnyddio'r Gymraeg a chyfathrebu trwy gyfrwng y Gymraeg hyd eithaf eu gallu. Dylai plant wrando ar y Gymraeg yn cael ei siarad, a dylent ymateb yn briodol mewn sefyllfaoedd cyfarwydd, gan ddefnyddio ystod o batrymau. Dylid eu hannog i gyfleu eu hanghenion trwy gyfrwng y Gymraeg, a dylid eu cyflwyno'n gynyddol i'r Gymraeg. Caiff sgiliau eu datblygu trwy gyfathrebu mewn ystod o weithgareddau pleserus ac ymarferol a gaiff eu cynllunio, a thrwy ddefnyddio ystod o symbyliadau sy'n cynyddu gwybodaeth a phrofiadau blaenorol plant ac sy'n adeiladu arnynt, a hynny mewn amgylcheddau dysgu diogel ac ysgogol a geir dan do ac yn yr awyr agored. Dylid defnyddio profiadau llafar y plant i ddatblygu eu sgiliau darllen, a dylid eu hannog i ddewis a defnyddio deunyddiau darllen Cymraeg. Dylent wrando ar ystod o symbyliadau, gan gynnwys deunydd clyweledol a meddalwedd rhyngweithiol TGCh yn Gymraeg. Dylai plant gael ystod o gyfleoedd i fwynhau gwneud marciau a datblygu eu sgiliau ysgrifennu Cymraeg. Bydd sgiliau iaith a ddysgir mewn un iaith yn cefnogi'r gwaith o ddatblygu gwybodaeth a sgiliau mewn iaith arall.

## Cymraeg ail iaith yng Nghyfnod Allweddol 2

Yng Nghyfnod Allweddol 2, bydd y dysgwyr yn adeiladu ar y sgiliau, yr wybodaeth a'r ddealltwriaeth a gaffaelwyd yn ystod y Cyfnod Sylfaen. Caiff y cynnydd hwn ei gyflawni trwy gyfrwng rhaglen integredig mewn llafaredd, darllen ac ysgrifennu. Cyflwynir profiadau a chyfleoedd sy'n creu cydberthynas rhwng yr adrannau Sgiliau ac Ystod a geir yn y rhaglenni astudio.

Bydd y dysgwyr yn siarad yn hyderus wrth weithio fel unigolion ac aelodau o grŵp, a byddant yn defnyddio ystod gynyddol o eirfa, ymadroddion, brawddegau a chwestiynau. Bydd y profiadau a gyflwynir iddynt yn cynnwys cyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithgareddau drama a chwarae rôl. Byddant yn datblygu i fod yn wrandawyr gweithredol ac ymatebol, a byddant yn cael profiad o ystod eang o destunau, gan gynnwys deunyddiau dilys, wrth iddynt ddatblygu i fod yn ddarllenwyr annibynnol ac effeithiol. Byddant yn ysgrifennu mewn ymateb i ystod o symbyliadau gan ddangos dealltwriaeth gynyddol o'r angen i siarad ac ysgrifennu yn unol â'r pwrpas a'r gynulleidfa. Byddant yn dangos cywirdeb cynyddol wrth weithio, ac yn ystyried a gwerthuso eu cyraeddiadau eu hunain a chyraeddiadau pobl eraill.

## Cymraeg ail iaith yng Nghyfnod Allweddol 3

Yng Nghyfnod Allweddol 3, bydd y dysgwyr yn adeiladu ar y sgiliau, yr wybodaeth a'r ddealltwriaeth a gaffaelwyd yng Nghyfnod Allweddol 2. Caiff y cynnydd hwn ei gyflawni trwy gyfrwng rhaglen integredig mewn llafaredd, darllen ac ysgrifennu. Cyflwynir profiadau a chyfleoedd sy'n creu cydberthynas rhwng yr adrannau Sgiliau ac Ystod a geir yn y rhaglenni astudio.

Bydd y gweithgareddau llafar yn sicrhau bod gallu'r dysgwyr wrth wrando, gwylio a siarad yn cael ei ddatblygu a'i ymestyn, a byddant yn siarad yn gynyddol rugl. Bydd y profiadau a gyflwynir iddynt yn cynnwys cyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithgareddau drama a chwarae rôl. Byddant yn darllen ystod eang o destunau er mwynhad a diddordeb, gan gynnwys deunydd dilys. Byddant yn gallu cyflwyno barn bersonol am yr hyn y byddant yn ei ddarllen gan ymateb yn briodol i'r cynnwys a'r arddull. Bydd y dysgwyr yn ysgrifennu gan ddefnyddio ystod o ffurfiau ac arddulliau, a byddant yn addasu'u hysgrifennu i gyd-fynd â diben a chynulleidfa ac yn defnyddio patrymau brawddegol sy'n gynyddol gywir. Byddant yn dangos cywirdeb cynyddol wrth weithio, ac yn ystyried a gwerthuso eu cyraeddiadau eu hunain a chyraeddiadau pobl eraill.

## Cymraeg ail iaith yng Nghyfnod Allweddol 4

Yng Nghyfnod Allweddol 4, bydd y dysgwyr yn adeiladu ar y sgiliau, yr wybodaeth a'r ddealltwriaeth a gaffaelwyd yng Nghyfnod Allweddol 3. Caiff y cynnydd hwn ei gyflawni trwy gyfrwng rhaglen integredig mewn llafaredd, darllen ac ysgrifennu. Cyflwynir profiadau a chyfleoedd sy'n creu cydberthynas rhwng yr adrannau Sgiliau ac Ystod a geir yn y rhaglenni astudio.

Bydd y dysgwyr yn datblygu i fod yn gyfathrebwyr effeithiol a hyderus ar lafar. Byddant yn darllen testunau mwy heriol ac ysgogol, gan gynnwys deunydd dilys, sy'n meithrin eu diddordeb a'u brwdfrydedd. Byddant yn ysgrifennu mewn ystod o ffurfiau gan addasu'u hysgrifennu i gyd-fynd â phwrpas a chynulleidfa. Byddant yn dangos cywirdeb cynyddol wrth weithio, ac yn ystyried a gwerthuso eu cyraeddiadau eu hunain a chyraeddiadau pobl eraill.

## Llafaredd

### Sgiliau

**Dylid rhoi cyfleoedd i'r dysgwyr:**

**1.** wylio a gwrando'n astud gan ymateb ar lafar, yn ysgrifenedig ac yn ddi-iaith

**2.** ymateb gan holi a chynnig sylwadau

**3.** cyfathrebu yn glir ac yn hyderus ac ynganu a goslefu'n ddealladwy yn y Gymraeg

**4.** ymateb yn gwrtais a dechrau sefydlu perthynas wrth sgwrsio

**5.** cadarnhau'r gystrawen Gymraeg trwy ddefnyddio'n gywir amrywiaeth o:
- eirfa
- ymadroddion
- cwestiynau
- patrymau brawddegol

**6.** defnyddio iaith yn gywir ac yn glir gan ddefnyddio geiriau a phatrymau addas i'r sefyllfa, *e.e. defnyddio 'ti' a 'chi' yn gywir*, a meithrin cywirdeb trwy:

a. ddefnyddio ffurfiau berfol (amser a pherson)

b. negyddu brawddegau

c. defnyddio arddodiaid

ch. treiglo

d. gwahaniaethu rhwng geiriau tebyg

**7.** gwerthuso eu siarad eu hunain a siarad eraill ac ystyried sut i wella.

### Ystod

**Dylid rhoi cyfleoedd i'r dysgwyr:**

**1.** weld a chlywed gwahanol bobl yn siarad, gan gynnwys pobl â thafodiaith wahanol

**2.** profi amrywiaeth o symbyliadau a syniadau, testunau clywedol, clyweledol, electronig, gweledol ac ysgrifenedig, e.e. *DVDau, tapiau, deunydd bwrdd gwyn rhyngweithiol, perfformiad theatrig*

**3.** cyfathrebu ar gyfer amrywiaeth o bwrpasau gan gynnwys:
- holi a chynnig sylwadau syml
- rhoi a dilyn cyfres o gyfarwyddiadau syml
- cyflwyno profiadau personol a dychmygus a gwybodaeth ffeithiol, syml
- mynegi barn a chynnig eglurhad byr
- adrodd yn ôl ar sail nodiadau

**4.** gweithio'n unigol, fesul pâr, mewn grwpiau ac fel aelod o ddosbarth

**5.** defnyddio amrywiaeth o ddulliau i gyflwyno syniadau, gan gynnwys TGCh, *e.e. dulliau yn ymwneud â drama, efelychiadau, cynnal trafodaeth*

**6.** siarad ag amrywiaeth o gynulleidfaoedd gan gynnwys athrawon, cyfoedion ac oedolion cyfarwydd

**7.** cynyddu eu hyder wrth ddefnyddio ieithoedd drwy dynnu ar eu gwybodaeth o'r Gymraeg a Saesneg ac ieithoedd eraill.

## Darllen

### Sgiliau

**Dylid rhoi cyfleoedd i'r dysgwyr:**

**1.** ddefnyddio strategaethau amrywiol, *e.e. ffonics, adnabod geiriau,* fel bo'r angen, er mwyn datblygu fel darllenwyr

**2.** darllen eu gwaith eu hunain, a gwaith eraill:
- yn hyderus
- yn ystyrlon
- gyda mwynhad

**3.** defnyddio strategaethau gwahanol er mwyn canfod ystyr a chasglu gwybodaeth mewn testunau gan gynnwys:
- cip ddarllen
- llithr ddarllen
- craff ddarllen
- rhagfynegi
- defnyddio cyd-destun a gwybodaeth o iaith i ganfod ystyr

**4.** adnabod nodweddion gwahanol genres o ran trefniadaeth, strwythur a chyflwyniad, a gwahaniaethu rhwng ffaith a barn

**5.** ymateb ar lafar ac yn ysgrifenedig i'r:
- syniadau
- geirfa
- arddull
- cywair
- cyflwyniad

gan ateb cwestiynau, cynnig ambell sylw neu farn a defnyddio termau perthnasol, *e.e. stori*

**6.** chwilio am wybodaeth drwy ddefnyddio systemau trefnu gwybodaeth o bob math, gan gynnwys TGCh, *e.e. yr wyddor, mynegeion, catalogau*

**7.** defnyddio'r wybodaeth o iaith a ddaw o'u darllen i:
- atgyfnerthu'r iaith a gyflwynwyd iddynt
- datblygu dealltwriaeth o strwythur yr iaith
- deall sut y mae ystod o atalnodi yn gymorth i gyfleu ystyr

**8.** darllen, ailddarllen a dwyn i gof yr hyn a ddarllenwyd ac ailadrodd y darnau y cafwyd blas arnynt; dysgu darnau ar y cof.

### Ystod

**Dylid rhoi cyfleoedd i'r dysgwyr:**

**1.** ddatblygu fel darllenwyr brwdfrydig, annibynnol a myfyrgar

**2.** darllen mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd gan gynnwys darllen:
- gyda chefnogaeth
- yn annibynnol
- fesul pâr
- mewn grŵp
- ar goedd

a gwrando gan ddilyn y print

**3.** profi amrywiaeth o destunau a ffurfiau gan gynnwys:
- barddoniaeth a rhyddiaith draddodiadol a chyfoes gan gynnwys peth sydd wedi'i ysgrifennu yn benodol ar gyfer dysgwyr
- deunydd sy'n cynnig her
- deunydd sy'n ehangu'r gorwelion a'r meddwl
- deunydd sy'n cyflwyno gwybodaeth a deunydd cyfeiriol, gan gynnwys print y cyfryngau a deunydd cyfrifiadurol
- detholiadau a thestunau cyflawn
- deunydd sy'n cynnwys ystod o nodweddion o ran strwythur.

## Ysgrifennu

### Sgiliau

**Dylid rhoi cyfleoedd i'r dysgwyr:**

**1.** ddefnyddio nodweddion y ffurfiau a ddewisir

**2.** defnyddio a chysylltu amrywiaeth o ymadroddion, cwestiynau a brawddegau yn gywir, gan gadarnhau'r gystrawen Gymraeg, a defnyddio paragraffau lle bo'n briodol

**3.** defnyddio atalnodi i gyfleu ystyr priodol gan gynnwys:
- atalnod
- atalnod llawn
- gofynnod
- dyfynnod
- ebychnod
- collnod
- acen grom
- pwyntiau bwled

**4.** dewis a defnyddio geirfa briodol, a defnyddio iaith i greu effeithiau

**5.** meithrin cywirdeb trwy:
- ddefnyddio ffurfiau berfol (amser a pherson)
- negyddu brawddegau
- defnyddio arddodiaid
- treiglo
- defnyddio cenedl enwau

**6.** sillafu geiriau syml yn gywir a gwirio'u sillafu trwy ddefnyddio dulliau amrywiol, gan gynnwys TGCh

**7.** ystyried eu gwaith eu hunain, a gwaith eraill

**8.** drafftio a gwella eu gwaith gan ddefnyddio TGCh fel bo'r angen i:
- baratoi a chynllunio
- drafftio ac ailddrafftio'r cynnwys a'r iaith
- prawf-ddarllen
- paratoi copi terfynol

**9.** cyflwyno'u gwaith yn briodol gan:
- ddatblygu llawysgrifen ddarllenadwy, yn unol â chonfensiwn
- defnyddio dulliau cyflwyno a gosod pwrpasol, gan gynnwys TGCh.

### Ystod

**Dylid rhoi cyfleoedd i'r dysgwyr:**

**1.** ysgrifennu ar gyfer amrywiaeth o bwrpasau gan gynnwys:
- difyrru
- cyflwyno gwybodaeth
- mynegi barn
- cyfleu teimladau a syniadau

**2.** ysgrifennu ar gyfer amrywiaeth o gynulleidfaoedd real a dychmygus, e.e. *yr hunan, cyd-ddysgwyr, dysgwyr iau, athrawon, teulu a ffrindiau*

**3.** ysgrifennu mewn amrywiaeth o ffurfiau, e.e. *stori, cerdd, sgript, taflen, poster, hysbyseb, adroddiad, dyddiadur, nodiadau, testun electronig, portread, cyfarwyddiadau, holiadur, adolygiad*

**4.** ysgrifennu mewn ymateb i amrywiaeth o symbyliadau clywedol, gweledol a chlyweledol, e.e. *stori, cerdd, eu diddordebau, eu gweithgareddau a'u profiadau yn y dosbarth a thu hwnt, rhaglen deledu, cerflun*.

## Llafaredd

### Sgiliau

**Dylid rhoi cyfleoedd i'r dysgwyr:**

**1.** wylio a gwrando'n astud gan ymateb ar lafar, yn ysgrifenedig ac yn ddi-iaith

**2.** ymateb yn ymestynnol gan:
- holi a chynnig sylwadau
- gwneud nodiadau ar sail eu hymholiadau, a'u defnyddio

**3.** cyfathrebu:
- yn glir ac yn hyderus
- gan ddechrau dangos ymwybyddiaeth o gynulleidfa a phwrpas
- gan ynganu a goslefu'n briodol yn y Gymraeg

**4.** ymateb yn briodol ac yn gwrtais gan sefydlu a datblygu perthynas wrth sgwrsio

**5.** cadarnhau'r gystrawen Gymraeg trwy ddefnyddio amrywiaeth gynyddol o:
- eirfa
- ymadroddion
- cwestiynau
- patrymau brawddegol

yn bwrpasol ac yn gywir

**6.** defnyddio iaith yn gywir, yn glir ac yn hyderus gan:
- ddefnyddio geiriau a phatrymau addas i'r sefyllfa
- adnabod rhai elfennau o dafodiaith
- meithrin cywirdeb trwy:
  - a. ddefnyddio ffurfiau berfol (amser a pherson)
  - b. negyddu brawddegau
  - c. defnyddio arddodiaid
  - ch. treiglo
  - d. gwahaniaethu rhwng geiriau tebyg
  - dd. defnyddio cenedl enwau

**7.** gwerthuso eu siarad eu hunain a siarad eraill ac ystyried sut i wella.

### Ystod

**Dylid rhoi cyfleoedd i'r dysgwyr:**

**1.** weld a chlywed gwahanol bobl yn siarad, gan gynnwys pobl â thafodiaith wahanol

**2.** profi amrywiaeth o symbyliadau a syniadau, testunau clywedol, clyweledol, electronig, gweledol ac ysgrifenedig, *e.e. DVDau, tapiau, deunydd bwrdd gwyn rhyngweithiol, perfformiad theatrig*

**3.** cyfathrebu ar gyfer amrywiaeth o bwrpasau gan gynnwys:
- holi a chynnig sylwadau
- rhoi a dilyn cyfres o gyfarwyddiadau
- cyflwyno profiadau personol a dychmygus, a gwybodaeth ffeithiol
- mynegi barn gan roi rhesymau a thystiolaeth i'w chefnogi er mwyn perswadio
- adrodd yn ôl ar sail nodiadau

**4.** gweithio'n unigol, fesul pâr, mewn grwpiau ac fel aelod o ddosbarth

**5.** defnyddio amrywiaeth o ddulliau i gyflwyno syniadau, gan gynnwys TGCh, *e.e. dulliau yn ymwneud â drama, efelychiadau, cynnal trafodaeth*

**6.** siarad ag amrywiaeth o gynulleidfaoedd gan gynnwys athrawon, cyfoedion ac oedolion cyfarwydd

**7.** cynyddu eu hyder wrth ddefnyddio ieithoedd drwy dynnu ar eu gwybodaeth o'r Gymraeg a Saesneg ac ieithoedd eraill.

## Darllen

### Sgiliau

**Dylid rhoi cyfleoedd i'r dysgwyr:**

**1.** ddefnyddio strategaethau amrywiol, *e.e. ffonics, adnabod geiriau*, fel bo'r angen er mwyn atgyfnerthu eu darllen

**2.** darllen eu gwaith eu hunain, a gwaith eraill:
- yn hyderus
- yn ystyrlon
- yn rhugl
- gyda mwynhad

**3.** defnyddio strategaethau gwahanol er mwyn canfod ystyr a chasglu gwybodaeth mewn testunau gan gynnwys:
- cip ddarllen
- llithr ddarllen
- craff ddarllen
- rhagfynegi
- defnyddio cyd-destun a gwybodaeth am iaith i ganfod ystyr ac adnabod yr hyn sydd ymhlyg mewn testun

**4.** adnabod nodweddion gwahanol genres o ran trefniadaeth, strwythur a chyflwyniad; sylwi ar y modd y gellir creu effeithiau drwy ddyfeisiau orgraff, sain a gair, a gwahaniaethu rhwng ffaith a barn

**5.** ymateb ar lafar ac yn ysgrifenedig yn glir ac mewn modd priodol i'r:
- syniadau
- geirfa
- arddull
- cywair
- cyflwyniad
- ffurf

gan gynnig sylwadau neu farn a defnyddio termau perthnasol

**6.** chwilio am wybodaeth drwy ddefnyddio systemau trefnu gwybodaeth o bob math, gan gynnwys TGCh, *e.e. yr wyddor, mynegeion, catalogau*

**7.** defnyddio'r wybodaeth o iaith a ddaw o ddarllen i:
- atgyfnerthu'r iaith a gyflwynwyd iddynt
- datblygu dealltwriaeth o strwythur yr iaith
- deall sut y mae ystod o atalnodi yn gymorth i gyfleu ystyr

**8.** darllen, ailddarllen a dwyn i gof yr hyn a ddarllenwyd ac ailadrodd y darnau y cafwyd blas arnynt; dysgu darnau ar y cof.

### Ystod

**Dylid rhoi cyfleoedd i'r dysgwyr:**

**1.** ddatblygu fel darllenwyr brwdfrydig, annibynnol a myfyrgar

**2.** darllen mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd gan gynnwys darllen:
- gyda chefnogaeth
- yn annibynnol
- fesul pâr
- mewn grŵp
- ar goedd

a gwrando gan ddilyn y print

**3.** profi amrywiaeth o destunau a ffurfiau gan gynnwys:
- barddoniaeth a rhyddiaith draddodiadol a chyfoes gan gynnwys peth sydd wedi'i ysgrifennu yn benodol ar gyfer dysgwyr
- deunydd sy'n cynnig her
- deunydd sy'n ehangu'r gorwelion a'r meddwl
- deunydd sy'n cyflwyno gwybodaeth a deunydd cyfeiriol, gan gynnwys print y cyfryngau a deunydd cyfrifiadurol
- detholiadau a thestunau cyflawn
- deunydd sy'n cynnwys ystod o nodweddion o ran strwythur a threfn.

## Ysgrifennu

### Sgiliau

**Dylid rhoi cyfleoedd i'r dysgwyr:**

**1.** ddefnyddio nodweddion y ffurfiau a ddewisir gan addasu eu harddull yn unol â'r gynulleidfa a'r pwrpas

**2.** defnyddio a chysylltu amrywiaeth o ymadroddion, cwestiynau, brawddegau yn gywir, gan gadarnhau'r gystrawen Gymraeg a pharagraffu'n effeithiol

**3.** defnyddio'r ystod lawn o farciau atalnodi

**4.** dewis a defnyddio geirfa briodol gan ehangu eu hadnoddau iaith, a defnyddio iaith i greu effeithiau

**5.** meithrin cywirdeb trwy:
- ddefnyddio ffurfiau berfol (amser a pherson)
- negyddu brawddegau
- defnyddio arddodiaid
- treiglo
- defnyddio cenedl enwau
- gwahaniaethu rhwng geiriau tebyg
- gwahaniaethu rhwng 'i', 'u' ac 'y'

**6.** sillafu'n gywir a gwirio'u sillafu trwy ddefnyddio dulliau amrywiol, gan gynnwys TGCh

**7.** ystyried a gwerthuso eu gwaith eu hunain, a gwaith eraill

**8.** drafftio a gwella eu gwaith gan ddefnyddio TGCh fel bo'r angen i:
- baratoi a chynllunio
- drafftio ac ailddrafftio'r cynnwys a'r iaith
- prawf-ddarllen
- paratoi copi terfynol

**9.** cyflwyno'u gwaith yn briodol gan:
- ddatblygu llawysgrifen ddarllenadwy, yn unol â chonfensiwn
- defnyddio dulliau cyflwyno a gosod pwrpasol, gan gynnwys TGCh.

### Ystod

**Dylid rhoi cyfleoedd i'r dysgwyr:**

**1.** ysgrifennu ar gyfer amrywiaeth o bwrpasau gan gynnwys:
- difyrru
- cyflwyno gwybodaeth
- mynegi barn
- cyfleu teimladau a syniadau

**2.** ysgrifennu ar gyfer amrywiaeth eang o gynulleidfaoedd real a dychmygus, *e.e. yr hunan, cyd-ddysgwyr, dysgwyr iau, athrawon, teulu a ffrindiau*

**3.** ysgrifennu mewn amrywiaeth eang o ffurfiau, *e.e. stori, cerdd, sgript, taflen, poster, hysbyseb, adroddiad, dyddiadur, nodiadau, testun electronig, portread, cyfarwyddiadau, holiadur, adolygiad*

**4.** ysgrifennu mewn ymateb i amrywiaeth eang o symbyliadau clywedol, gweledol a chlyweledol, *e.e. stori, cerdd, eu diddordebau, eu gweithgareddau a'u profiadau yn y dosbarth a thu hwnt, rhaglen deledu, cerflun*.

## Disgrifiadau lefel

Mae'r disgrifiadau lefel canlynol yn disgrifio'r mathau a'r ystod o berfformiad a ddylai fod yn nodweddiadol o'r dysgwyr sy'n gweithio ar lefel benodol. Wrth benderfynu ar lefel cyrhaeddiad dysgwr ar ddiwedd cyfnod allweddol, dylai athrawon farnu pa ddisgrifiad sy'n cyd-fynd orau â pherfformiad y dysgwr. Dylid ystyried pob disgrifiad ar y cyd â'r disgrifiadau lefel cyfagos.

Erbyn diwedd Cyfnod Allweddol 2, dylai perfformiad y mwyafrif mawr o'r dysgwyr ddod o fewn ystod Lefelau 2 i 5, ac erbyn diwedd Cyfnod Allweddol 3 o fewn yr ystod 3 i 7. Mae Lefel 8 ar gael i ddysgwyr galluog iawn ac, i helpu athrawon i wahaniaethu Perfformiad Eithriadol yng Nghyfnod Allweddol 3, darperir disgrifiad uwchlaw Lefel 8.

## Targed cyrhaeddiad 1: Llafaredd

### Lefel 1

Bydd y dysgwyr yn dangos dealltwriaeth o eiriau ac ymadroddion a leferir yn eglur gan lais cyfarwydd, ac yn ymateb iddynt mewn dulliau di-iaith neu ymadroddion byr ar lafar. Byddant yn siarad gan ynganu a goslefu'n ddealladwy wrth ddynwared a defnyddio geiriau ac ymadroddion syml. O gael cefnogaeth byddant yn cyfleu gwybodaeth syml, yn gofyn ac yn ateb cwestiynau.

### Lefel 2

Bydd y dysgwyr yn dangos dealltwriaeth o eitemau byr a leferir gan lais cyfarwydd, gan ymateb trwy ddulliau di-iaith neu ymadroddion byr ar lafar. Byddant yn ceisio, yn deall ac yn cyfleu gwybodaeth syml ac yn ymateb i ystod o symbyliadau. Wrth siarad byddant yn ynganu ac yn goslefu yn ddealladwy, ac yn amrywio peth ar eirfa a phatrymau.

### Lefel 3

Bydd y dysgwyr yn dangos dealltwriaeth o gyfres o eitemau byr a leferir gan lais cyfarwydd drwy ymateb yn ddi-iaith neu ar lafar. Byddant yn ceisio, yn deall ac yn cyfleu gwybodaeth syml, bersonol a ffeithiol yn eglur. Byddant yn mynegi barn yn syml ac yn gwneud rhai gosodiadau'n wirfoddol. Wrth siarad byddant yn ynganu ac yn goslefu yn ddealladwy gan ddefnyddio ystod gynyddol o eirfa a phatrymau sy'n gywir fel arfer.

### Lefel 4

Bydd y dysgwyr yn ymgynefino â lleisiau amrywiol gan ddangos dealltwriaeth o brif bwyntiau materion a gyflwynir iddynt mewn cyd-destunau cyfarwydd. Byddant yn ymateb trwy ddulliau di-iaith ac ymadroddion byr ar lafar neu'n ysgrifenedig. Byddant yn cyflwyno gwybodaeth ac yn sôn am rai profiadau gan holi ac ymateb a chynnig rhai sylwadau gwirfoddol. Wrth fynegi barn, byddant yn cynnig rhesymau amrywiol. Byddant yn ynganu ac yn goslefu yn ddealladwy gan ddefnyddio amrywiaeth cynyddol o ymadroddion a phatrymau brawddegol gyda pheth cywirdeb.

## Lefel 5

Bydd y dysgwyr yn dangos dealltwriaeth mewn sefyllfaoedd cyfarwydd ac yn ymateb iddynt. Wrth siarad, byddant yn cychwyn sgwrs ac yn dangos mwy o hyder gan ddangos peth ymwybyddiaeth o drefn a dilyniant. Wrth fynegi barn, byddant yn rhoi rhesymau i esbonio eu syniadau. Byddant yn siarad yn ddealladwy ac yn weddol rwydd gan ddefnyddio amrywiaeth o ymadroddion, patrymau brawddegol a ffurfiau berfol gyda mesur da o gywirdeb.

## Lefel 6

Bydd y dysgwyr yn dangos dealltwriaeth o'r iaith lafar a ddefnyddir mewn ystod o sefyllfaoedd cyfarwydd drwy ddewis manylion penodol. Mewn trafodaeth byddant yn gwrando'n ofalus ar gyfraniadau gan eraill ac yn ymateb drwy ofyn cwestiynau a chynnig sylwadau sy'n berthnasol. Wrth fynegi barn byddant yn cytuno, neu'n anghytuno, ac yn rhoi rhesymau i gefnogi'r farn honno. Byddant yn siarad yn rhwydd gan ddefnyddio amrywiaeth cynyddol o ymadroddion a phatrymau brawddegol ac yn amrywio amser a pherson y ferf yn gywir fel rheol.

## Lefel 7

Bydd y dysgwyr yn dangos dealltwriaeth ac yn ymateb i ystod o iaith lafar sy'n cynnwys brawddegau syml a chymhleth mewn amrywiaeth o gyd-destunau. Mewn trafodaeth, byddant yn rhoi sylw manwl i'r hyn a ddywedir drwy holi er mwyn derbyn syniadau a chyfrannu mewn modd sy'n ystyried safbwynt eraill. Byddant yn rhoi sylw i ddilyniant drwy ddatblygu eu sgwrs yn bwrpasol. Byddant yn mynegi barn gan ddefnyddio tystiolaeth ar brydiau. Byddant yn siarad yn rhwydd ac yn weddol gywir mewn gwahanol sefyllfaoedd a chyd-destunau ac yn dangos gafael weddol dda ar gystrawen naturiol yr iaith lafar.

## Lefel 8

Bydd y dysgwyr yn dangos dealltwriaeth o nodweddion mwyaf cyffredin yr iaith lafar a ddefnyddir mewn ystod eang o gyd-destunau, drwy grynhoi'r ystyr a thrwy ymateb i'r hyn a glywant. Mewn trafodaeth byddant yn ystyried yn ofalus gyfraniadau gan eraill, gan ystyried sut a phryd i ymateb. Byddant yn ennyn diddordeb eraill drwy amrywio eu mynegiant a'u geirfa. Byddant yn mynegi barn gan ddethol tystiolaeth i gefnogi eu safbwynt. Byddant yn siarad yn rhwydd ac yn gywir ar y cyfan, gan ddangos gafael eithaf sicr ar gystrawen naturiol yr iaith lafar, ac yn amrywio geirfa a mynegiant yn ôl y cywair.

## Perfformiad Eithriadol

Bydd y dysgwyr yn dangos dealltwriaeth o'r iaith lafar a ddefnyddir mewn ystod eang o gyd-destunau, ac yn ymateb yn briodol ac yn hyderus i'r hyn y maent yn ei glywed. Mewn trafodaeth, byddant yn gwneud cyfraniadau sylweddol, meddylgar a sensitif. Byddant yn cyfathrebu yn eglur a threfnus gan amrywio eu mynegiant yn ôl gofynion y sefyllfa. Byddant yn defnyddio tystiolaeth yn gytbwys i gyfiawnhau barn, yn defnyddio amrywiaeth eang o adnoddau iaith ac yn dangos gafael gadarn ar gystrawen yr iaith lafar.

## Targed cyrhaeddiad 2: Darllen

### Lefel 1

Bydd y dysgwyr yn adnabod geiriau cyfarwydd. Byddant yn cysylltu ffurf ysgrifenedig y geiriau â'u sain wrth ddarllen geiriau unigol. Byddant yn dangos dealltwriaeth o eiriau unigol drwy gyfrwng ymatebion di-iaith. Weithiau bydd angen cefnogaeth/cymorth arnynt.

### Lefel 2

Bydd y dysgwyr yn adnabod geiriau ac ymadroddion syml a chyfarwydd o fewn eu profiad ac yn dechrau dangos diddordeb mewn deunydd ysgrifenedig drwy ddarllen ambell ddarn syml. Byddant yn dangos dealltwriaeth o'r hyn a ddarllenwyd drwy ymateb i'r cynnwys ar lafar neu'n ddi-iaith.

### Lefel 3

Bydd y dysgwyr yn darllen testunau syml yn eithaf clir. Byddant yn deall ac yn ymateb yn syml i destunau sy'n cynnwys ystod gynyddol o eiriau, ymadroddion a darnau byr mewn cyd-destunau cyfarwydd. Byddant yn ymateb i gerddi, storïau a deunydd ffeithiol drwy gyfeirio at yr hyn y maent yn ei hoffi. Byddant yn dechrau darllen yn annibynnol ac yn dewis ambell destun o'u gwirfodd.

### Lefel 4

Bydd y dysgwyr yn darllen darnau cyfarwydd yn glir a chyda pheth mynegiant. Byddant yn dangos dealltwriaeth o brif rediad paragraffau neu sgyrsiau byr mewn cyd-destunau cyfarwydd drwy adnabod ystod gynyddol o eiriau ac ymadroddion a ffeithiau allweddol. Byddant yn ymateb i'r testunau a ddarllenwyd drwy gyfeirio at fanylion arwyddocaol yn y testun. Byddant yn datblygu fel darllenwyr annibynnol.

### Lefel 5

Bydd y dysgwyr yn darllen yn glir a chyda mynegiant. Byddant yn ymateb i amrywiaeth o destunau addas gan ddangos dealltwriaeth o'r prif syniadau, y digwyddiadau a'r cymeriadau. Byddant yn dewis gwybodaeth berthnasol o destunau ac yn mynegi barn yn syml. Byddant yn darllen yn annibynnol.

### Lefel 6

Bydd y dysgwyr yn darllen gyda mynegiant a hyder cynyddol. Byddant yn dangos dealltwriaeth o destunau addas yn cynnwys rhai testunau dilys gan ddewis a dethol y prif bwyntiau. Byddant yn mynegi barn am y cynnwys gan gynnig rhesymau i gefnogi safbwynt. Byddant yn cywain gwybodaeth am bwnc arbennig o fwy nag un ffynhonnell brint gan ei defnyddio'n briodol. Byddant yn darllen testunau hirach yn annibynnol.

## Lefel 7

Bydd y dysgwyr yn darllen ac yn cyflwyno darnau i eraill yn ystyrlon ac yn hyderus. Byddant yn darllen ac yn deall amrywiaeth o destunau addas yn cynnwys peth deunydd dilys gan ddethol a dehongli'r prif bwyntiau. Wrth ymateb i destunau byddant yn mynegi barn ac yn cyfeirio at blot, cymeriadau ac ambell agwedd ar arddull gan ddethol geiriau, ymadroddion, brawddegau a gwybodaeth berthnasol i gefnogi safbwynt. Byddant yn cywain, galw i gof a choladu gwybodaeth o ffynonellau amrywiol.

## Lefel 8

Bydd y dysgwyr yn deall amrywiaeth gynyddol o destunau dilys, yn dethol a dehongli'r prif bwyntiau ac yn dangos dealltwriaeth o'r hyn sydd ymhlyg ynddynt drwy dynnu casgliadau lle bo'n briodol. Byddant yn mynegi barn ar destunau ac yn cynnig rhesymau dros eu sylwadau drwy gyfeirio at gynnwys, themâu, adeiladwaith ac agweddau ar iaith ac arddull. Byddant yn cywain, galw i gof a chrynhoi gwybodaeth berthnasol o ffynonellau amrywiol yn eglur.

## Perfformiad Eithriadol

Bydd y dysgwyr yn dangos dealltwriaeth o amrywiaeth eang o destunau dilys a heriol. Byddant yn dangos dealltwriaeth drwy adnabod gwahanol haenau o ystyr a chynnig sylwadau ar eu harwyddocâd a'u heffaith. Byddant yn mynegi barn yn effeithiol gan ddadansoddi cynnwys, themâu, adeiladwaith, iaith ac arddull. Byddant yn cywain, cyfuno a chyflwyno gwybodaeth o ffynonellau amrywiol yn drefnus.

## Targed cyrhaeddiad 3: Ysgrifennu

### Lefel 1

Bydd y dysgwyr yn cyfathrebu drwy gopïo'n gywir ac ysgrifennu geiriau a rhai ymadroddion syml a chyfarwydd o'u cof. Byddant yn ffurfio llythrennau sydd fel rheol wedi'u ffurfio'n glir ac yn mynd i'r cyfeiriad cywir. Byddant yn dechrau deall gwahanol ddibenion a swyddogaethau iaith ysgrifenedig.

### Lefel 2

Bydd y dysgwyr yn cyfathrebu drwy ysgrifennu geiriau, ymadroddion ac ambell frawddeg i gyfleu gwybodaeth ffeithiol a phersonol sydd o fewn eu profiad gan ddefnyddio patrymau cyfarwydd. Byddant yn defnyddio priflythrennau ac atalnodau llawn gyda pheth cysondeb. Bydd geiriau syml yn cael eu sillafu'n gywir fel rheol. O ran llawysgrifen, bydd y llythrennau wedi'u ffurfio'n gywir ac yn gyson o ran maint ac fe'u defnyddir yn unol â chonfensiwn.

### Lefel 3

Bydd y dysgwyr yn ysgrifennu brawddegau sylfaenol byr, yn defnyddio geirfa a phatrymau addas a chyfarwydd i gyfleu gwybodaeth ffeithiol a phersonol syml sydd o fewn eu profiad yn weddol gywir, gan ddangos rhywfaint o ymwybyddiaeth o'r darllenydd a'r ffurf. Bydd geiriau cyfarwydd wedi eu sillafu'n gywir a byddant yn defnyddio atalnodi – priflythyren, gofynnod, collnod ac atalnod llawn – yn gywir ar y cyfan. Bydd y llawysgrifen yn ddarllenadwy a chaiff y gwaith ei gyflwyno'n briodol.

### Lefel 4

Bydd y dysgwyr yn ysgrifennu brawddegau cysylltiedig gan ddangos peth gafael ar drefn a dilyniant, wrth ysgrifennu i wahanol bwrpasau. Byddant yn defnyddio geirfa ac ymadroddion addas, yn amrywio patrymau ac yn cynhyrchu brawddegau sylfaenol, gan ddangos peth gafael ar ffurf a dilyniant. Byddant yn sillafu'r mwyafrif o'r geiriau strwythur a geiriau eraill sydd o fewn eu profiad yn gywir. Byddant yn defnyddio priflythyren, gofynnod ac atalnod llawn yn gywir gan ddefnyddio collnod a dyfynodau pan fo'u hangen. Bydd llawysgrifen yn glir, a byddant yn ysgrifennu'n rhwydd, gan addasu'r cyflwyniad yn ôl y dasg lle bo hynny'n briodol.

## Lefel 5

Bydd y dysgwyr yn ysgrifennu brawddegau cysylltiedig, yn datblygu eu syniadau yn synhwyrol ac yn dangos gafael ar ffurf a dilyniant, wrth ysgrifennu i amrywiaeth o bwrpasau. Byddant yn dethol geiriau ac ymadroddion addas i'r pwrpas, yn amrywio peth ar eu brawddegau ac yn cynhyrchu cystrawennau a brawddegau sy'n weddol gywir. Byddant yn mynegi barn yn syml. Byddant yn sillafu'n gywir fel rheol. Byddant yn defnyddio priflythyren, gofynnod ac atalnod llawn yn gywir ac yn dechrau atalnodi o fewn brawddeg gan ddefnyddio collnod a dyfynodau pan fo'u hangen. Bydd y gwaith yn ddarllenadwy ac wedi'i gyflwyno'n effeithiol.

## Lefel 6

Bydd y dysgwyr yn dethol geiriau ac ymadroddion addas i'r pwrpas ac yn dechrau creu effeithiau yn eu hysgrifennu. Byddant yn dangos gafael eithaf sicr ar ffurf wrth ysgrifennu i amrywiaeth o bwrpasau a dechrau manylu yn ôl gofynion y dasg. Byddant yn mynegi barn gan ddefnyddio ambell reswm. Bydd eu gwaith yn cynnwys paragraffau ac ystod o gystrawennau ac ymadroddion sy'n weddol gywir. Byddant yn sillafu'r mwyafrif o'r geiriau mewn unrhyw destun a ysgrifennant yn gywir gan atalnodi'n briodol fel arfer. Bydd y gwaith yn ddarllenadwy ac wedi'i gyflwyno'n effeithiol.

## Lefel 7

Bydd y dysgwyr yn defnyddio iaith yn fwriadol i fanylu ar brofiadau a digwyddiadau cyfarwydd, i gofnodi gwybodaeth ffeithiol ac i gefnogi eu barn â rhesymau. Byddant yn dangos gafael sicr ar ffurf wrth ysgrifennu i amrywiaeth o bwrpasau. Byddant yn defnyddio atalnodi a pharagraffu i gynhyrchu gwaith ysgrifennu trefnus a chlir. Bydd ganddynt afael eithaf sicr ar gystrawen a bydd naws Gymraeg i'r gwaith. Bydd y gwaith yn ddarllenadwy ac wedi'i gyflwyno'n effeithiol.

## Lefel 8

Bydd gwaith ysgrifennu'r dysgwyr yn cynnal diddordeb y darllenydd drwy eu dewis o eirfa, ymadroddion a chystrawennau wrth ddatblygu disgrifiadau a syniadau i amrywiaeth o bwrpasau. Byddant yn dechrau cynnal dadleuon gan gynnig tystiolaeth i gefnogi eu barn ac yn defnyddio atalnodi a pharagraffu i gynhyrchu testun clir, trefnus a strwythuredig. Bydd ganddynt afael eithaf sicr ar gystrawen gywir ac idiom naturiol Gymraeg. Bydd y gwaith yn ddarllenadwy ac wedi'i gyflwyno'n effeithiol.

## Perfformiad Eithriadol

Bydd y dysgwyr yn ysgrifennu yn hyderus mewn ystod o ffurfiau, yn datblygu cymeriadau a sefyllfaoedd yn sensitif ac yn trefnu eu syniadau yn gydlynus. Byddant yn adeiladu eu dadleuon gan gynnig tystiolaeth yn gyson. Byddant yn defnyddio atalnodi a pharagraffu i gynhyrchu cyfanweithiau clir, trefnus a chelfydd eu strwythur a bydd eu defnydd o eirfa a chystrawen gywir, naturiol Gymraeg yn adlewyrchu gofynion y tasgau. Bydd y gwaith yn ddarllenadwy ac wedi'i gyflwyno'n effeithiol.

# Deilliannau'r cwricwlwm cenedlaethol

Mae deilliannau'r cwricwlwm cenedlaethol canlynol yn anstatudol. Cawsant eu hysgrifennu i gydnabod cyrhaeddiad dysgwyr sy'n gweithio islaw Lefel 1.

Mae deilliannau'r cwricwlwm cenedlaethol yn disgrifio'r mathau a'r ystod o berfformiad y dylai dysgwyr sy'n gweithio ar ddeilliant penodol eu dangos yn nodweddiadol. Wrth benderfynu ynghylch deilliant cyrhaeddiad dysgwr ar ddiwedd cyfnod allweddol, dylai athrawon farnu pa ddisgrifiad sy'n cyd-fynd orau â pherfformiad y dysgwr. Dylid ystyried pob disgrifiad ar y cyd â'r disgrifiadau ar gyfer deilliannau cyfagos.

## Llafaredd

### Deilliant 1

Bydd y dysgwyr yn ceisio dynwared rhai geiriau ac ymadroddion syml a leferir mewn llais cyfarwydd gan ddechrau dangos dealltwriaeth o rai ohonynt. Byddant yn ceisio ymateb yn ddi-iaith. Byddant yn gwrando ar rigymau a thestunau cyfarwydd.

### Deilliant 2

Bydd y dysgwyr yn dynwared rhai geiriau ac ymadroddion syml a leferir mewn llais cyfarwydd. Byddant yn dangos dealltwriaeth o rai o gyfarwyddiadau syml bob dydd y dosbarth gan ymateb yn briodol ar adegau. Byddant yn gwrando ac yn ymateb i rigymau a thestunau cyfarwydd.

### Deilliant 3

Bydd y dysgwyr yn dynwared ac yn dweud rhai geiriau ac ymadroddion syml yn ddealladwy ac yn dangos peth dealltwriaeth o gyfarwyddiadau, cwestiynau ac iaith bob dydd y dosbarth. Byddant yn ymateb yn ddi-iaith ac yn ceisio ymateb ar lafar mewn geiriau unigol ar adegau.

## Darllen

### Deilliant 1

Bydd y dysgwyr yn dechrau dangos dealltwriaeth o beth yw llyfr, e.e. ei fod yn agor a chau.

### Deilliant 2

Bydd y dysgwyr yn dechrau cysylltu symbolau a lluniau mewn testun* a ddarllenir iddynt ac yn dechrau dangos chwilfrydedd ynghylch cynnwys llyfrau.

### Deilliant 3

Bydd y dysgwyr yn edrych ar lyfrau gan ddangos diddordeb yn y cynnwys. Byddant yn dechrau gwahaniaethu rhwng testun* a lluniau, ac mewn testunau cyfarwydd byddant yn deall bod ystyr yn deillio ohonynt.

* testun/straeon amlgyfryngol, caneuon, ac ati.

## Ysgrifennu

### Deilliant 1

Bydd y dysgwyr yn dechrau rhoi marciau ar bapur.

### Deilliant 2

Bydd y dysgwyr yn dargopïo, tros-ysgrifennu/tan-ysgrifennu llinellau a phatrymau. Byddant yn dechrau sylweddoli bod marciau ar bapur yn cyfleu ystyr.

### Deilliant 3

Bydd y dysgwyr yn ceisio copïo geiriau ac ymadroddion. Byddant yn sylweddoli bod print yn cyfleu ystyr, e.e. tynnu llun i gyfateb â gair. Byddant yn ceisio ffurfio llythrennau cyfarwydd, e.e. llythrennau yn eu henwau.

# Cyfnod Allweddol 4

## Llwybrau Dysgu 14–19

Ar gyfer dysgwyr yng Nghyfnod Allweddol 4, bydd Cymraeg ail iaith yn rhan o lwybr dysgu pob unigolyn. Dylid cynllunio'r cwrs astudio a ddilynir fel ei fod yn hybu galluoedd pobl ifanc i fod yn ddysgwyr yn ogystal â hybu eu dyhead i gyrchu cyfleoedd dysgu yn y dyfodol. Yn benodol, dylai'r cwrs gyfrannu mor eang â phosibl at y pedair agwedd ar ddysgu a nodir yn y Craidd Dysgu 14–19.

## Cymraeg ail iaith yng Nghyfnod Allweddol 4

Yng Nghyfnod Allweddol 4, bydd y dysgwyr yn adeiladu ar y sgiliau, yr wybodaeth a'r ddealltwriaeth a gaffaelwyd yng Nghyfnod Allweddol 3. Caiff y cynnydd hwn ei gyflawni trwy gyfrwng rhaglen integredig mewn llafaredd, darllen ac ysgrifennu. Cyflwynir profiadau a chyfleoedd sy'n creu cydberthynas rhwng yr adrannau Sgiliau ac Ystod a geir yn y rhaglenni astudio.

Bydd y dysgwyr yn datblygu i fod yn gyfathrebwyr effeithiol a hyderus ar lafar. Byddant yn darllen testunau mwy ysgogol, gan gynnwys deunydd dilys, sy'n meithrin eu diddordeb a'u brwdfrydedd. Byddant yn ysgrifennu mewn ystod o ffurfiau gan addasu'u hysgrifennu i gyd-fynd â phwrpas a chynulleidfa. Byddant yn dangos cywirdeb cynyddol wrth weithio, ac yn ystyried a gwerthuso eu cyraeddiadau eu hunain a chyraeddiadau pobl eraill.

## Llafaredd

### Sgiliau

**Dylid rhoi cyfleoedd i'r dysgwyr:**

**1.** wylio a gwrando'n astud gan ymateb ar lafar, yn ysgrifenedig ac yn ddi-iaith gan godi'r prif bwyntiau

**2.** ymateb yn ymestynnol gan:
- holi'n fanwl a chynnig sylwadau
- pwyso a mesur safbwyntiau pobl eraill
- gwneud nodiadau ar sail eu hymholiadau, a'u defnyddio

**3.** cyfathrebu:
- yn glir ac yn hyderus
- gan ddangos ymwybyddiaeth o gynulleidfa a phwrpas
- gan ynganu a goslefu'n briodol yn y Gymraeg

**4.** ymateb yn briodol ac yn gwrtais gan sefydlu a datblygu perthynas wrth gynnal trafodaeth

**5.** cadarnhau'r gystrawen Gymraeg trwy ddefnyddio amrywiaeth ehangach o:
- eirfa
- ymadroddion
- cwestiynau
- patrymau brawddegol

yn bwrpasol ac yn gywir

**6.** defnyddio iaith yn gywir, yn glir ac yn hyderus gan:
- ddefnyddio geiriau a phatrymau addas i'r sefyllfa
- adnabod gwahaniaethau rhwng iaith lafar gwahanol ardaloedd a'r iaith ysgrifenedig
- ystyried sut y mae iaith ffurfiol ac anffurfiol yn amrywio yn ôl cyd-destun a phwrpas
- meithrin cywirdeb trwy:
  - a. ddefnyddio ffurfiau berfol (amser a pherson)
  - b. negyddu brawddegau
  - c. defnyddio arddodiaid
  - ch. treiglo
  - d. gwahaniaethu rhwng geiriau tebyg
  - dd. defnyddio cenedl enwau

**7.** gwerthuso eu siarad eu hunain a siarad eraill ac ystyried sut i wella.

### Ystod

**Dylid rhoi cyfleoedd i'r dysgwyr:**

**1.** weld a chlywed gwahanol bobl yn siarad, gan gynnwys pobl â thafodiaith wahanol

**2.** profi amrywiaeth o symbyliadau a syniadau, testunau clywedol, clyweledol, electronig gweledol ac ysgrifenedig, *e.e. DVDau, tapiau, deunydd bwrdd gwyn rhyngweithiol, penawdau papur newydd*

**3.** cyfathrebu ar gyfer amrywiaeth o bwrpasau gan gynnwys:
- holi'n fanwl a chynnig sylwadau estynedig
- rhoi a dilyn cyfres o gyfarwyddiadau
- cyflwyno profiadau personol/dychmygus, a gwybodaeth ffeithiol yn fanwl
- mynegi barn yn effeithiol gan roi rhesymau a thystiolaeth i'w chefnogi er mwyn perswadio neu amddiffyn safbwynt
- adrodd yn ôl ar drafodaeth

**4.** gweithio'n unigol, fesul pâr, mewn grwpiau ac fel aelod o ddosbarth

**5.** defnyddio amrywiaeth o ddulliau i gyflwyno syniadau, gan gynnwys TGCh, *e.e. cynnal trafodaeth, chwarae rôl*

**6.** siarad ag amrywiaeth o gynulleidfaoedd gan gynnwys athrawon, cyfoedion ac oedolion cyfarwydd

**7.** cynyddu eu hyder wrth ddefnyddio ieithoedd drwy dynnu ar eu gwybodaeth o'r Gymraeg a Saesneg ac ieithoedd eraill.

## Darllen

### Sgiliau

**Dylid rhoi cyfleoedd i'r dysgwyr:**

**1.** adeiladu ar y sgiliau darllen a osodwyd yn Rhaglen Astudio Cyfnod Allweddol 3

**2.** darllen eu gwaith eu hunain, a gwaith eraill ar bapur ac ar sgrin:
- yn hyderus
- yn ystyrlon
- yn rhugl
- yn gywir
- gyda mynegiant priodol er mwyn cadw diddordeb y gynulleidfa
- gyda mwynhad

**3.** defnyddio strategaethau gwahanol er mwyn:
- canfod ystyr
- crynhoi
- casglu gwybodaeth
- canfod yr hyn sydd ymhlyg mewn amrywiaeth o destunau heriol a diddorol

**4.** adnabod a thrafod nodweddion gwahanol genres o ran trefniadaeth, strwythur a chyflwyniad; sylwi ar y modd y gellir creu effeithiau drwy ddyfeisiau orgraff, sain a gair, a gwahaniaethu rhwng ffaith a barn

**5.** trafod ac ymateb ar lafar ac yn ysgrifenedig i'r:
- cynnwys
- geirfa
- arddull
- cywair
- cyflwyniad
- ffurf

gan ddefnyddio tystiolaeth i gefnogi sylwadau neu farn a defnyddio termau perthnasol

**6.** chwilio am wybodaeth drwy ddefnyddio systemau trefnu gwybodaeth o bob math, gan gynnwys TGCh, *e.e. mynegeion, catalogau, llyfrgelloedd, peiriannau archwilio'r we*

**7.** defnyddio'r wybodaeth o iaith a ddaw o ddarllen amrywiaeth o destunau heriol i:
- atgyfnerthu'r iaith a gyflwynwyd iddynt
- datblygu dealltwriaeth o strwythur yr iaith
- deall sut y mae ystod o atalnodi yn gymorth i gyfleu ystyr

**8.** darllen, ailddarllen a dwyn i gof yr hyn a ddarllenwyd.

### Ystod

**Dylid rhoi cyfleoedd i'r dysgwyr:**

**1.** ddatblygu fel darllenwyr brwdfrydig, annibynnol a myfyrgar

**2.** darllen mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd

**3.** profi amrywiaeth o destunau a ffurfiau llenyddol a/neu ffeithiol.

## Ysgrifennu

### Sgiliau

**Dylid rhoi cyfleoedd i'r dysgwyr:**

1. ddefnyddio nodweddion y ffurfiau a ddewisir yn effeithiol gan addasu eu harddull yn unol â'r gynulleidfa a'r pwrpas
2. cysylltu brawddegau a chymalau yn ddealladwy ac yn drefnus; defnyddio cystrawennau amrywiol Cymraeg a pharagraffu'n effeithiol i greu darnau cydlynus
3. defnyddio'r ystod lawn o farciau atalnodi addas i'r pwrpas
4. dewis a defnyddio geirfa briodol ac eang; defnyddio iaith i greu effeithiau yn sylwgar ac yn synhwyrus
5. meithrin cywirdeb trwy:
   - ddefnyddio ffurfiau berfol (amser a pherson)
   - negyddu brawddegau
   - defnyddio arddodiaid
   - treiglo
   - defnyddio cenedl enwau
   - gwahaniaethu rhwng geiriau tebyg
   - gwahaniaethu rhwng 'i', 'u' ac 'y'
   - osgoi geiriau, ymadroddion a phatrymau Saesneg a Seisnig diangen
6. defnyddio ystod o strategaethau i'w galluogi i sillafu'n gywir; gwirio sillafu trwy ddefnyddio dulliau amrywiol, gan gynnwys TGCh
7. defnyddio geirfa briodol wrth ystyried a gwerthuso eu gwaith eu hunain, a gwaith eraill
8. drafftio a gwella eu gwaith gan ddefnyddio TGCh fel bo'r angen i:
   - baratoi a chynllunio
   - drafftio ac ailddrafftio'r cynnwys a'r iaith
   - prawf-ddarllen
   - paratoi copi terfynol
9. cyflwyno'u gwaith yn briodol gan:
   - ddatblygu llawysgrifen ddarllenadwy, yn unol â chonfensiwn
   - defnyddio dulliau cyflwyno a gosod pwrpasol, gan gynnwys TGCh.

### Ystod

**Dylid rhoi cyfleoedd i'r dysgwyr:**

1. ysgrifennu ar gyfer amrywiaeth o bwrpasau gan gynnwys:
   - difyrru
   - cyflwyno gwybodaeth
   - mynegi barn
   - cyfleu teimladau a syniadau
2. ysgrifennu ar gyfer amrywiaeth eang o gynulleidfaoedd real a dychmygus
3. ysgrifennu mewn amrywiaeth eang o ffurfiau ffeithiol a dychmygus
4. ysgrifennu mewn ymateb i amrywiaeth eang o symbyliadau clywedol, gweledol a chlyweledol.